**ARHOLIAD MYNEDIAD**
**IONAWR 2020**

# SEICOLEG

**Amser - 1.5 awr**

**<u>Cyfarwyddiadau i Fyfyrwyr:</u>**
**ADRAN A (40%): Rhaid i chi ateb pob un o'r PEDWAR (4) cwestiwn**
**ADRAN B (60%): Rhaid i chi ateb UN (1) cwestiwn o ddewis o chwech**

---

## ADRAN A (40%)
## Darllenwch y braslun ymchwil canlynol, ac ateb pob un o'r PEDWAR (4) cwestiwn isod.

Roedd ymchwilydd eisiau canfod a yw'n well gan fyfyrwyr prifysgol ddysgu am ddulliau ymchwil ac ystadegau trwy ddarlithoedd a gweithdai wyneb-yn-wyneb, neu trwy gyfrwng cwrs ar-lein. I wneud hyn, rhoddodd yr ymchwilydd holiadur i 1000 o fyfyrwyr yn eu trydedd flwyddyn yn y brifysgol, a oedd eisoes wedi cwblhau cwrs ar ddulliau ymchwil ac ystadegau yn ail flwyddyn eu hastudiaethau. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am eu profiad dysgu mewn holiadur 10 eitem.

1. Pam y gallai fod yn ddefnyddiol ateb cwestiwn ymchwil o'r fath?

2. Pa fath o gwestiynau y gallai'r ymchwilwyr eu gofyn yn yr holiadur?

3. A yw'r cynllun a ddefnyddiwyd yn addas ar gyfer cwestiwn ymchwil o'r math hwn? Sut y gellid ei wella? Rhowch resymau am eich ateb.

4. Beth yw'r ystyriaethau moesegol?

**EWCH YMLAEN I ADRAN B AR Y DUDALEN NESAF**

## ADRAN B (60%)

## Atebwch UN (1) cwestiwn o blith y dewis o chwech isod.

1. Mae’r newid yn yr hinsawdd yn fater hynod bwysig a ddylai beri pryder i bob un ohonom. Sut y gallai seicolegwyr helpu pobl i ymddwyn yn fwy cyfrifol tuag at yr amgylchedd?

2. Amcangyfrifir y bydd dros 1 miliwn o bobl yn dioddef o ddementia yn y Deyrnas Unedig erbyn 2025, ond beth yw effaith yr anhwylder gwybyddol hwn ar les neu emosiynau unigolyn neu ofalwyr (gan gynnwys perthnasau) ac, o ganlyniad, ar ddatblygiad yr anhwylder?

3. Pam y mae rhai pobl yn fwy tebygol o gael problemau iechyd meddwl?

4. Sut fyddech chi'n strwythuro ac yn hysbysebu grŵp ymarfer corff cyhoeddus er mwyn ysgogi pobl sydd wedi ymddeol i ymuno â'r grŵp ac i ymwneud yn gyson ag ef?

5. Trafodwch ddau faes lle mae seicoleg yn ddefnyddiol yn ystafell y llys.

6. Cloriannwch y modd y defnyddir therapïau siarad yn y system gofal iechyd i drin salwch meddyliol.

**DIWEDD Y PAPUR**